CYNGOR TREF
FFESTINIOG
TOWN COUNCIL

Swyddfa'r Cyngor ● 5 Stryd Fawr ● Blaenau Ffestiniog ● Gwynedd ● LL41 3ES
☎ 01766 832 398 ✉ cyngortrefffestiniog@yahoo.co.uk

COFNODION CYFARFOD ARFEROL CYNGOR TREF FFESTINIOG
A GYNHALIWYD NOS IAU 10fed o FAWRTH 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 Y.H.

CADEIRYDD: Cynghorydd Erwyn Jones

YN BRESENNOL: Cynghorwyr: Mel Goch ap Meirion, Rory Francis
Kevin Baldwin, Ronwen D Roberts a Will G Roberts

9518/03/16 YMDDIHEURIADAU: Annwen Daniels, Bedwyr Gwilym, Gareth W Jones a Mandy Williams-Davies

9519/03/16 DATGAN DIDDORDEB
Cynghorydd Rory Francis – 9536/03/16 Y Dref Werdd
Cynghorydd Ronwen D Roberts – 9536/03/16 Y Dref Werdd

9520/03/16 MATERION BRYS

Materion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys, yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.
Dalier Sylw trafodaeth yn unig, ni chaniateir unrhyw benderfyniad ar fater a godwyd yn y fan hyn ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Bu i'r Cadeirydd gydymdeimlo a'r Clerc ar golli ei brawd Geraint yn ddiweddar.
Bu i'r Cadeirydd ddiolch i feirniaid cystadleuaeth Ysgoloriaeth Patagonia sef Mr Tecwyn Vaughan Jones, Mrs Elsi Jones a Mrs Anwen Jones. Maia Jones gafodd ei dewis fel enillydd yr Ysgoloriaeth i gynrychioli Ffestiniog yn Rawson nes ymlaen eleni.

Bu i'r Cadeirydd hefyd ddiolch i Mrs Eleri Roberts am ddarparu teisennau blasus ar gyfer noson cyhoeddi enillydd Ysgoloriaeth Patagonia.

9521/03/16 Y DREF WERDD

Yn anffodus, oherwydd rhesymau personol, ni fu i Mr Gwydion ap Wynn, Rheolydd Prosiect Y Dref Werdd roi diweddariad.

PENDERFYNIAD: Ei ail drefnu at fis Ebrill.

9522/03/16 MATERION YR HEDDLU / FFORWM HEDDLU

Roedd y Rhingyll Iwan Lloyd Jones a'r SCCH Delyth Edwards yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedwyd bod Ras yr Iaith yn mynd drwy'r dref yn ystod yr haf mewn cydweithrediad a'r Dref Werdd. Eglurodd y Rhingyll na fydd yr Heddlu yn gallu mynychu pob cyfarfod o'r Cyngor Tref ond byddent ar gael i unrhyw gyfarfod os bydd rhywbeth angen ei drafod.

Oherwydd y tannau gwair bwriadol y llynedd, bu 25 i gyd a phob un yn cyfrif tuag at ystadegau trosedd yr ardal) bydd yr Heddlu yn cynnal digwyddiad o'r enw Dawns y Glaw yn Ysgol y Moelwyn ar 22 a 23 o Fawrth 2016 mewn cydweithrediad a 'r Gwasanaeth Tân. Bydd ffilmiau yn cael eu dangos ac yna bydd cyfle i sgwrsio am effaith y tannau ar y gymuned a'r bywyd gwyllt. Bydd mwy o heddweision a swyddogion tan yn yr ardal nes bydd y perygl o dannau gwair pwrpasol wedi mynd heibio.

Dywedwyd bod cystadleuaeth pysgota i rai ifanc pob blwyddyn yn cael ei noddi gan y Gwasanaeth Tan ond does dim cynrychiolaeth o'r Gwasanaeth Tân wedi bod yn bresennol ers sawl blwyddyn bellach. Cytunodd y Rhingyll i atgoffa'r Gwasanaeth Tân o hyn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9523/03/16 DERBYN A CHADARNHAU COFNODION CYFARFOD ARFEROL 11eg CHWEFROR 2016

PENDERFYNIAD: Derbyn a Chadarnhau'r Cofnodion gyda'r Cynghorydd Mel Goch ap Meirion yn cynnig a'r Cynghorydd Kevin Baldwin yn eilio

9524/03/16 CYFRIFON I'W TALU

Catrin S Williams (Cyfieithydd)	£	98.38	Rhif Siec.	002208
Nefyn Cleaning Services (Gwaith amrywiol)	£	552.00	Rhif Siec.	002209
John Farrington (Y Parc)	£	320.00	Rhif Siec.	002210
Dwr Cymru (Y Parc)	£	123.50	Rhif Siec.	002211
G Thomas (Man waith)	£	226.00	Rhif Siec.	002212
Clerks and Councils Direct (Cyfnodolyn)	£	12.00	Rhif Siec.	002213
Arian Parod	£	100.00	Rhif Siec.	002214
John Farrington (Parc Sglefrio)	£	130.00	Rhif Siec.	002220
Total Gas & Power (Trydan y Parc))	£	116.14	Debyd Uniongyrchol	
Cwmni Adwy (Rhent)	£	276.00	Debyd Uniongyrchol	
TalkTalk (Ffôn)	£	27.90	Debyd Uniongyrchol	

PENDERFYNIAD: Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc dalu'r uchod

9525/03/16 ARIAN I MEWN

Partneriaeth y Parc £ 5000.00

9526/03/16 IS-BWYLLGOR MWYNDERAU

Is-Bwyllgor Mwynderau

Derbyn argymhellion Is-Bwyllgor Mwynderau Nos Iau 18fed Chwefror 2016

PENDERFYNIAD: Gan nad oedd yr argymhellion ar gael ar y noson i'w trafod yng nghyfarfod Is Bwyllgor Mwynderau nos Iau 17eg o Fawrth 2016.

9527/03/16 IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO
Derbyn argymhellion Is-Bwyllgor Cynllunio Nos Lun 7fed Mawrth 2016

ARGYMHELLION IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO
NOS LUN 7FED MAWRTH 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 6.00PM

Presennol:
Cynghorwyr:
Mel Goch ap Meirion-Cadeirydd
Erwyn Jones
Will G Roberts
Kevin Baldwin

Ymddiheuriad:
Cynghorwyr:
Bedwyr Gwilym
Rory Francis

DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Ddatgan Diddordeb

1. Cais Cynllunio Rhif C16/0158/03/TR
Enw'r Ymgeisydd SP Energy
Conglywal - Bethania
Blaenau Ffestiniog
Ail adeiladu llinell drydan uwchddaearol bresennol 11Kv
Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/781
Ymgeisydd J Diamond
8 Maes y Coed
Ffestiniog
Amnewid rendr presennol gyda gro
Dim Gwrthwynebiad

3. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/718C
Ymgeisydd N Richards
Hen Stablau
Ffestiniog
Adeiladu estyniad blaen unllawr
Dim Gwrthwynebiad

4. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/40A
Ymgeisydd A Morrison
Sŵn yr Afon
Rhyd-y-sarn
Adeiladu estyniad llawr cyntaf
Dim Gwrthwynebiad

5. Cais Cynllunio Rhif C16/0189/03/LL
Ymgeisydd Mr T V Woolway
Llwyn Rhedyn
Sgwâr Oakeley
Blaenau Ffestiniog
Cais ôl gweithredol i gadw llwyfannau pren i gefn yr annedd
Dim Gwrthwynebiad

6. Cais Cynllunio Rhif C16/0190/03/LL
Ymgeisydd Mr T V Woolway
Llwyn Rhedyn
Sgwâr Oakeley
Blaenau Ffestiniog
Cais ôl gweithredol i gadw llwyfannau pren i gefn yr annedd
Dim Gwrthwynebiad

PENDERFYNIAD: I dderbyn yr argymhellion gyda'r Cynghorydd Will G Roberts yn cynnig a'r Cynghorydd Kevin Baldwin yn eilio heblaw am Gais Cynllunio Rhif C16/0189/03/LL ble cafwyd gwybodaeth bod cryn wrthwynebiad i'r cais yn lleol felly caiff ei ail drafod mewn Is Bwyllgor Cynllunio nos Iau 17eg o Fawrth 2016

9528/03/16 **CEISIADAU CYNLLUNIO**
DATGAN DIDDORDEB
Ni fu i unrhyw Gynghorydd Ddatgan Diddordeb

Trafod ceisiadau sydd i law a derbyn penderfyniadau Awdurdodau Cynllunio

1. Cais Cynllunio Rhif C16/0022/03/LL
Ymgeisydd Mr R Jones
Tŷ Capel Bethel
Tanygrisiau
Blaenau Ffestiniog
Cais ar gyfer dymchwel stabl bresennol ynghyd a chodi adeilad newydd ar gyfer creu uned gwyliau a thoiledau allanol ynghyd a gosod 3 pod campio parhaol
Dim Gwrthwynebiad

2. Cais Cynllunio Rhif NP5/59/511F
Ymgeisydd Mr Gwilym Williams
Tir ger Penrhiw
Pantllwyd
Ffestiniog
Datblygiad preswyl am 16 tŷ (marchnad agored) yn cynnwys byngalo presennol a chymeradwyo o dan Ganiatâd Cynllunio NP5/59/511A dyddiedig 4ydd Chwefror 2005
Ei drafod ymhellach mewn Is Bwyllgor Cynllunio nos Iau 17eg o Fawrth 2016 pan fydd pawb wedi cael cyfle i edrych yn fanwl ar y cais.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9529/03/16 UNED POLISI CYNLLUNIO AR Y CYD GWYNEDD A MÔN

Ar ôl ystyried y sylwadau a chafwyd eu cyflwyno am y Cynllun Adnau a thystiolaeth bellach, mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn ymgynghori ar Newidiadau â Ffocws i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd o 25 Chwefror tan 4.30yp 13 Ebrill 2016. Gwybodaeth ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth a'i drafod ymhellach mewn Is Bwyllgor Cynllunio i'w gynnal nos Fercher 23ain o Fawrth yn Siambr y Cyngor am 7.00pm.

9530/03/16 IECHYD

Cafwyd gwybodaeth bod cyfarfod ar y cyd gyda Phwyllgor Amddiffyn Ysbyty Coffa a Chyngor Cymuned Dolwyddelan a chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi ei drefnu bellach. Bydd yn cael ei gynnal yn Siambr y Cyngor Tref, dydd Mawrth 15fed o Fawrth 2016 am 10.00 o'r gloch. Yn bresennol ar ran Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fydd Dr P Higson Cadeirydd, Mr Geoff Lang Cyfarwyddwr Strategaeth a Ms Ffion Johnston Cyfarwyddwr Ardal Gorllewin.

Cafwyd gwybodaeth hefyd bod cyfarfod o'r Pwyllgor Amddiffyn i'w gynnal yng Nghylch yr Efail, pnawn Llun 14eg o0 Fawrth am 1.30pm.

Bu i gynghorydd son iddi gael sawl cwyn ynglŷn â'r gwasanaeth gwagio biniau ail gylchu. Mae cwynion wedi eu derbyn ynglŷn â chyflwr y ffordd ar ôl i'r biniau cael eu gwagio a hefyd bod biniau yn cael eu taflu i bob man. Teimlir bod angen i ni gyd ail gylchu cymaint ag y medrwn ond bod hyn fod yn ddigon i ambell un dewis peidio â defnyddio'r gwasanaeth.

Cafwyd gwybodaeth hefyd bod sawl cwyn wedi ei dderbyn ynglŷn ag awyrennau yn hedfan yn isel yn yr ardal.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i ysgrifennu at Gyngor Gwynedd ynglŷn â safon y gwasanaeth.

9531/03/16 GWEFAN Y CYNGOR TREF

Cafwyd gwybodaeth nad oes unrhyw ddatblygiad diweddar ynglŷn â'r wefan

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i gysylltu â chwmni Mwnci Bach.

9532/03/16 SGWÂR RAWSON

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth ynglyn a phryd fydd y plac yn barod.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9533/03/16 SWYDDFA BOST

Cafwyd gwybodaeth nad yw'r Swyddfa Bost wedi penderfynu'n bendant i symud i archfarchnad Eurospar. Bydd angen iddyn nhw baratoi eu cynllun busnes a hefyd cysylltu â'r cyhoedd cyn caiff unrhyw benderfyniad ei wneud. Erbyn hyn mae'n ymddangos bod dau fusnes lleol arall gyda diddordeb mewn rhedeg y gwasanaeth. Cafwyd gwybodaeth hefyd nad oes unrhyw benderfyniad wedi ei wneud i ail leoli'r swyddfa dosbarthu ac na fydd unrhyw benderfyniad ynglŷn â hyn am tua blwyddyn neu ddwy.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9534/03/16 PONT CWMORTHIN

Nid oedd y gwybodaeth berthnasol i law.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9535/03/16 PARTNERIAETH Y PARC

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

9536/03/16 CAEAU CHWARAE

DATGAN DIDDORDEB

Cynghorydd Rory Francis

Cynghorydd Ronwen D Roberts

Bu i'r Cyngor Tref dderbyn llythyr gan Y Dref Werdd yn gofyn am ganiatâd i gynnal digwyddiad yn y Parc, dydd Sadwrn 16eg o Orffennaf 2016.
Cafwyd gwybodaeth bod y teils ar lawr Gardd Encil angen mwy o sylw na feddylir ar y cychwyn.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth ac i gytuno mewn egwyddor a'r cais ond cyn rhoi sêl bendith mae angen mwy o wybodaeth am y digwyddiad. I ofyn i'r Dref Werdd drafod pob datblygiad gyda'r Cyngor Tref. I gael pris gan John Farrington am y gwaith angenrheidiol yng Ngardd Encil.

9537/03/16 CYNGOR GWYNEDD

Rhaglen Waith Mawrth 2016

A470	Ger Teiliau Isaf	Draeniad

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9538/03/16 CYFLE I GYNGHORWYR ADRODD YN ÔL I'R CYNGOR YN DILYN EU PRESENOLDEB MEWN PWYLLGORAU ALLANOL

Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Erwyn Jones, yn dilyn ei bresenoldeb yng nghyfarfod UnLlais Cymru yn Nolgellau yn ddiweddar. Dywedodd i Ms Bethan Jones Parry drafod cais 'Safle Treftadaeth Byd Eang Ardal Llechi Gwynedd' UNESCO. Mae dau safle eisioes yng Nghymru sef Blaenafon a Phontcysyllte. Cyngor Gwynedd sydd yn arwain ar hyn ond mae sawl un yn rhan o'r bartneriaeth e.e. Prifysgol Cymru, Bangor, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Teimlir na fyddai'r economi leol yn datblygu fawr iawn heb y statws hwn a gobeithir creu hyd at 5000 o swyddi o safon yn yr ardal yn sgil y statws. Pwysleisiwyd nad bwriad y dynodiad yw rhwystro datblygiad.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth

9539/03/16 NEWYDDION O GYNGOR GWYNEDD

Bu i'r Cadeirydd a'r Cynghorydd Will G Roberts fynychu cyfarfod o Her Gwynedd yn Ysgol y Moelwyn yn ddiweddar. Ni chafwyd unrhyw wybodaeth newydd ond cafwyd cadarnhad na fydd Cyngor Gwynedd yn darparu biniau halen yn yr ardal ar ôl 1af Hydref 2016.

Cafwyd gwybodaeth hefyd bod Cyngor Gwynedd yn edrych i dorri'r gwasanaeth toiledau cyhoeddus.

PENDERFYNIAD: Derbyn y wybodaeth, mae'r Cyngor Tref yn barod wedi cymryd camau i ddarparu gwasanaeth biniau halen yn yr ardal ac mewn trafodaethau a Chyngor Gwynedd ynglŷn â chymryd cyfrifoldeb am y toiledau cyhoeddus lleol.

9540/03/16 CLERKS AND COUNCILS DIRECT

Cyfnodolyn

Daeth y cyfarfod i ben am 8.34 y.h.

CADEIRYDD

CYNHELIR CYFARFOD ARFEROL NESAF Y CYNGOR TREF
NOS IAU 14eg EBRILL 2016
YN SIAMBR Y CYNGOR am 7.00 y.h.

CAEIR RHAGLEN AR GYFER CYFARFOD ARFEROL 14eg EBRILL 2016
AR YR 7fed EBRILL 2016